Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Dilynol o'r Trefniadau Diogelu Corfforaethol – Cyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3264A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Powys fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Mae’n peri pryder nad oes gan y Cyngor reolaeth briodol dros ei drefniadau diogelu corfforaethol o hyd, sy’n amlygu’r Cyngor a’i drigolion i berygl.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Asesiad o gynnydd o’i gymharu ag argymhellion o’n hadroddiad cenedlaethol yn 2015 8

Asesiad o gynnydd o’i gymharu â’r cynigion ar gyfer gwella o’n hadroddiad lleol yn 2014 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Fe wnaethom gynnal yr adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod gan Gyngor Sir Powys (y Cyngor) drefniadau corfforaethol effeithiol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl. Fe wnaethom asesu sut roedd y Cyngor wedi ymdrin â'r canfyddiadau a'r cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi prosesau diogelu plant[1]. Fe wnaethom hefyd asesu cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r argymhellion a geir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015).[2]

2 Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Mehefin 2022 a mis Medi 2022.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

3 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiadau cenedlaethol a lleol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014 a 2015?

4 Roedd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol ar draws y Cyngor ar gyfer diogelu. Nid oedd yn adolygiad o drefniadau diogelu penodol mewn Addysg na Gwasanaethau Cymdeithasol.

5 Yn gyffredinol: **Mae'n peri pryder nad oes gan y Cyngor reolaeth briodol dros ei drefniadau diogelu corfforaethol o hyd, sy'n amlygu'r Cyngor a'i drigolion i berygl.**

6 Mae Cylch Gorchwyl Grŵp Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn nodi mai ei ddiben yw 'Sicrhau bod yr holl aelodau a staff yn cyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau wrth helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed a cham-drin, gan gydnabod mai 'busnes pawb ym mhob gwasanaeth o fewn y Cyngor yw diogelu.' Fodd bynnag, yn ymarferol, nid oedd y Cyngor yn gallu dangos ei fod yn gweithredu yn unol â'i ymrwymiad, nac yn sicrhau ei hun na'i ddinasyddion mai 'busnes pawb ym mhob gwasanaeth o fewn y Cyngor yw diogelu'. Mae hyn yn amlygu'r Cyngor a'i drigolion i risgiau diogelu parhaus.

7 Nid yw'r Cyngor ychwaith wedi mynd i'r afael yn llawn â'r rhan fwyaf o'n cynigion ar gyfer gwella diogelu ac argymhellion cenedlaethol fel y nodir yn **Arddangosyn 2 a 3 isod.**

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Prosesau Diogelu Plant, Medi 2014.

[2] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru, Gorffennaf 2015.

8 Mae angen i'r Cyngor gymryd camau brys i gryfhau ei drefniadau diogelu corfforaethol a'i oruchwyliaeth, er mwyn sicrhau ei hun bod ei holl wasanaethau yn diogelu oedolion a phlant y sir. Y prif faterion llywodraethu y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw yw:

- **Cyhoeddi polisi diogelu corfforaethol**. Mae'n gyffredin i Gynghorau fod â pholisi diogelu corfforaethol. Mae'r Cyngor yn allanolyn gan nad oes ganddo bolisi o'r fath ac nad yw erioed wedi cael polisi o'r fath. Mae absenoldeb polisi o'r fath yn golygu bod diffyg eglurder posibl ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau ac anghysondebau posibl yn ymarferol. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r Cyngor bellach yn drafftio polisi diogelu corfforaethol.
- **Swyddogaeth y Grŵp Diogelu Corfforaethol**. Mae aelodaeth sefydlog y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn cynnwys uwch swyddogion ac aelodau. Ond nid yw'r Grŵp yn cyflawni ei gyfrifoldebau ei hun yn iawn fel y nodir yn ei Gylch Gorchwyl. Mae diffyg goruchwyliaeth effeithiol o faterion diogelu corfforaethol. Gwneir y diffyg goruchwyliaeth hwn yn waeth gan y ffaith nad yw'r Grŵp yn cynhyrchu adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol ar gyfer y Cabinet na'r pwyllgor craffu perthnasol yn unol â'r hyn a nodir gan Gylch Gorchwyl y Grŵp. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor mewn perygl o beidio â bod yn ymwybodol o faterion, tueddiadau neu'r angen posibl i fynd i'r afael â risgiau diogelu corfforaethol.

9 Yn **Arddangosion 2 a 3** rydym wedi cynnwys ein hargymhellion gwreiddiol o'n hadroddiadau ar yr Adolygiad Lleol a Chenedlaethol o Ddiogelu Corfforaethol, a'r diffyg cynnydd ar ran y Cyngor wrth weithredu'r rhain. Nid yw'n glir pam nad yw'r Cyngor wedi olrhain a gweithredu'r argymhellion hyn yn unol â'i argymhelliad mewnol ynghylch prosesau olrhain a sefydlwyd i roi sicrwydd i bwyllgorau perthnasol a'r cyhoedd.

10 O ystyried ein pryderon, rydym wedi nodi argymhellion ychwanegol yn **Arddangosyn 1** i helpu'r Cyngor i ganolbwyntio a chryfhau ei drefniadau diogelu corfforaethol ar frys. Mae'r argymhellion newydd hyn yn disodli'r argymhellion blaenorol o 2015.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun ar frys fod ganddo drefniadau cadarn ar waith ar gyfer diogelu corfforaethol a defnyddio dulliau priodol megis y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, craffu, y Grŵp Diogelu Corfforaethol ac archwilio mewnol i'w helpu i gyflawni'r sicrwydd hwnnw. |
| A2 | Dylai'r Cyngor gytuno a gweithredu polisi diogelu corfforaethol a sicrhau ei fod yn hygyrch ac yn ddealladwy i staff, aelodau a rhanddeiliaid eraill, a'i fod yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddaru a'i wreiddio yng ngwaith dyddiol pob gwasanaeth yn y Cyngor. |
| A3 | Mae angen i'r Cyngor sicrhau ar frys bod y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â Chylch Gorchwyl y Grŵp ei hun 'er mwyn sicrhau bod yr holl aelodau a staff yn cyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau wrth helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed a cham-drin, gan gydnabod mai busnes pawb ym mhob gwasanaeth o fewn y Cyngor yw diogelu'. |
| A4 | Mae angen i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i swyddogaethau a chyfrifoldebau'r prif swyddog a'r aelod arweiniol dros ddiogelu corfforaethol i gryfhau arweinyddiaeth gorfforaethol ac atebolrwydd. |
| A5 | Dylai'r Cyngor adolygu'r angen am ddau bolisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Os yw'n penderfynu cadw'r ddau bolisi, dylai fod yn glir ynghylch y rhesymeg pam, a hefyd yn glir ynghylch y materion canlynol, er mwyn osgoi dryswch:<br>• i bwy mae'r polisïau'n berthnasol;<br>• sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu ar yr un pryd;<br>• sicrhau eu bod yn gyson â'i gilydd; a<br>• bod unrhyw un sy'n defnyddio'r polisïau yn gweld eu bod nhw wedi'u diweddaru ac yn gyfredol. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A6 | Dylai'r Cyngor lunio canllawiau canolog ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr i helpu i sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor. |
| A7 | Dylai'r Cyngor gasglu gwybodaeth monitro cytundebol o bob Cyfarwyddiaeth y Cyngor i sicrhau eu bod i gyd yn monitro'n gadarn ac yn ymdrin â chamau sy'n gysylltiedig â diogelu ar frys. |
| A8 | Dylai'r Cyngor gyflymu'r gyfradd gydymffurfio drwy gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol ar gyfer staff ac aelodau fel bod 'yr holl aelodau a staff yn cyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau wrth helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed a cham-drin'. |
| A9 | Mae angen i'r Cyngor egluro yr hyn y mae'n ei ddisgwyl gan gontractwyr o ran hyfforddiant diogelu oherwydd ceir anghysondebau ar hyn o bryd yn null gweithredu'r Cyngor. |
| A10 | Dylai'r Cyngor wella ansawdd gwybodaeth perfformiad diogelu corfforaethol sy'n mynd i'r Cabinet a chraffu er mwyn hwyluso gwell goruchwyliaeth o ddiogelu corfforaethol. |
| A11 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei hun fod yr holl gyfarwyddiaethau yn ystyried risgiau diogelu yn llawn, bod â phrosesau uwchgyfeirio a lliniaru addas pan fo'u hangen, a, phan fo'n briodol, sicrhau bod cofrestrau risg cyfarwyddiaeth yn adlewyrchu'r ystyriaeth honno. |

# Asesiad o gynnydd o'i gymharu ag argymhellion ein hadroddiad cenedlaethol yn 2015

## Mae'n peri pryder nad oes gan y Cyngor reolaeth briodol dros ei drefniadau diogelu corfforaethol o hyd, sy'n amlygu'r Cyngor a'i drigolion i berygl.

**Arddangosyn 2: argymhellion o'n hadroddiad yn 2015 a'n hasesiad o gynnydd o'u cymharu â nhw**

| Argymhellion adroddiad 2015 | Cyflawnwyd/ni chyflawnwyd yr Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu drwy wneud y canlynol: | | |
| • penodi uwch swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol dros gynllunio gwelliannau; | **Cyflawnwyd** | • Penodwyd Cyfarwyddwr dros dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai i'r swyddogaeth hon ym mis Gorffennaf 2022. Cyn y penodiad hwn, cyflawnwyd y swyddogaeth gan Gyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol. |
| • penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; | **Cyflawnwyd** | • Penodwyd yr aelod Cabinet ar gyfer Powys Fwy Diogel i'r swyddogaeth hon ym mis Gorffennaf 2022. Cyn yr etholiad ym mis Mai 2022, cyflawnwyd y swyddogaeth hon gan yr aelod Cabinet ar gyfer Pobl Ifanc a Diwylliant. |
| • dosbarthu a diweddaru gwybodaeth yn rheolaidd am y | **Ni chyflawnwyd** a gwnaethpwyd argymhelliad ychwanegol | • Nid yw'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i swyddogaethau'r prif swyddog a'r aelod arweiniol dros ddiogelu corfforaethol. |

| Argymhellion adroddiad 2015 | Cyflawnwyd/ni chyflawnwyd yr Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | (gweler **A3** ar **dudalen 6** uchod) | • Nid oes gan y Cyngor bolisi diogelu corfforaethol sy'n nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau'r prif swyddog a'r aelod arweiniol.<br>• Nid oes gan y Cyngor dudalennau mewnrwyd na thudalennau gwefan diogelu corfforaethol.<br>• Nid yw'n glir o wefan y Cyngor pa aelod Cabinet yw'r aelod arweiniol ar gyfer diogelu corfforaethol. |
| A2 Sicrhau bod polisi ar draws y gorfforaeth gyfan ar ddiogelu sy'n cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn darparu cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor. | **Ni chyflawnwyd** a gwnaethpwyd argymhellion ychwanegol (gweler **A2 ac A4** ar **dudalen 6** uchod) | • Nid oes gan y Cyngor bolisi diogelu corfforaethol ac nid yw erioed wedi cael polisi diogelu corfforaethol, er gwaethaf yr argymhelliad yn ein hadroddiad yn 2015. Mae hyn hefyd er gwaethaf y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn nodi bod cyfrifoldebau'r Grŵp yn cynnwys 'datblygu a goruchwylio gweithredu polisi diogelu ledled y Cyngor' a 'nodi themâu sy'n dod i'r amlwg a sicrhau bod polisi diogelu'r Cyngor yn parhau i fod yn addas i'r diben'.<br>• O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r Cyngor yn drafftio polisi diogelu corfforaethol. |
| A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel drwy: | | |
| • sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a chydymffurfiaeth â pholisïau recriwtio diogel yn cwmpasu'r holl wasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant; | **Cyflawnwyd yn rhannol** a gwnaed argymhellion ychwanegol (gweler **A5** ac **A6** ar **dudalennau 6 a 7** uchod) | • Mae gan y Cyngor ddau Bolisi GDG. Mae'r ddau yn cael eu galw'n Bolisi a Gweithdrefn y GDG, sy'n ddryslyd. Mae'r Cyngor wedi datgan mai un o'r polisïau hyn yw'r fersiwn 'dalfyredig', er bod ganddynt 25 tudalen a 31 tudalen yn y drefn honno. Y fersiwn 'dalfyredig' yw'r ddogfen hiraf. Mae'n amlwg eu bod wedi eu llunio ar wahanol adegau ac nad ydynt wedi cael eu hadolygu ar yr un pryd. Cafodd un polisi ei lunio ym mis Medi 2020 ac fe gafodd y llall ei adolygu ddiwethaf ym mis Mehefin |

| Argymhellion adroddiad 2015 | Cyflawnwyd/ni chyflawnwyd yr Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| | | 2018. Mae'r fersiwn lawn o'r Polisi GDG a'r fersiwn dalfyredig wedi pasio eu dyddiadau adolygu. Yn y fersiwn hiraf o'r polisi nid yw'n glir yn benodol yn yr adran 'Pwy a gwmpesir o dan y polisi hwn?' ei fod yn berthnasol i staff a gwirfoddolwyr, er bod cyfeiriadau at wirfoddolwyr yn y polisi. Mae gan y fersiwn dalfyredig adran o'r enw 'cwmpas' sy'n datgan 'Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl weithwyr'. Nid oes sôn am gynnwys gwirfoddolwyr, er ei fod yn ddiweddarach yn cyfeirio at wirfoddolwyr mewn adrannau eraill o'r polisi. Nid yw'r naill bolisi na'r llall yn croesgyfeirio felly mae lle i ddryswch ynghylch pa un i'w ddilyn.<br>• Ceir Polisi Gwirfoddoli mewn Ysgolion, ond nid oes gan y Cyngor bolisi gwirfoddolwyr corfforaethol na chanllawiau canolog ynglŷn â recriwtio gwirfoddolwyr. Mae gan y Cyngor Ganllawiau Recriwtio Mwy Diogel sy'n cynnwys cyfeiriadau at wirfoddolwyr, ond yn y bôn mae'n ymwneud â recriwtio gweithwyr yn ddiogel ac ni ellir eu disgrifio fel canllawiau canolog ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr. |
| • creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDG; a | **Cyflawnwyd** | • Mae'r Cyngor yn cadw gwybodaeth gwirio GDG ar gyfer staff a gwirfoddolwyr ar iTrent. |
| • mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan | **Cyflawnwyd yn rhannol** a gwnaethpwyd argymhellion ychwanegol (gweler **A4, A7 ac A9** ar **dudalennau 6 a 7** uchod) | • Mae gan y Cyngor ddogfen Canllawiau Contractwyr ar gyfer Recriwtio Mwy Diogel sy'n eglur ynghylch disgwyliadau gwiriadau GDG. Mae'r Contract Gwasanaethau Safonol a'r fersiwn fyrrach o'r polisi GDG yr un mor glir (nid yw'r fersiwn hirach o'r polisi GDG mor glir). |

| Argymhellion adroddiad 2015 | Cyflawnwyd/ni chyflawnwyd yr Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | | • Darparodd y Cyngor ychydig o enghreifftiau o ddogfennau Gwahoddiad i Dendro mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc. Maent yn cynnwys cwestiynau perthnasol amrywiol ar faterion diogelu ac yn gofyn am wybodaeth briodol sy'n gysylltiedig â diogelu.<br>• Fodd bynnag, mae trefniadau ehangach y Cyngor ar gyfer contractwyr yn wan o ran gofynion wrth gyflawni hyfforddiant diogelu. Dyma enghreifftiau o wendidau o'r fath:<br>– Gallai Canllawiau'r Contractwyr ar gyfer Recriwtio Mwy Diogel fod yn gryfach wrth orfodi hyfforddiant diogelu. Ar hyn o bryd mae'n argymell (yn hytrach na gorfodi) bod pob gweithiwr sy'n dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc a/neu oedolion sydd mewn perygl yn cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth diogelu plant a/neu oedolion.<br>– Rhoddodd y Cyngor enghraifft i ni o'r geiriad a ddefnyddir mewn tendr sy'n datgan 'Bydd y Darparwr Gwasanaeth yn sicrhau bod pob aelod o staff y darparwr cymorth yn cael hyfforddiant priodol mewn Diogelu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor'. Nid yw'n glir pa bolisïau a gweithdrefnau y cyfeirir atynt ac nid oes polisi diogelu corfforaethol ar waith.<br>• Mae'r geiriad canlynol yn y Contract Gwasanaethau Safonol yn wan. Mae'n nodi 'Pan hysbysir y Contractwr ei fod yn berthnasol i'r Contract, bydd yn rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â'r polisïau, a sicrhau hefyd y bydd Staff yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y Cyngor yn ogystal ag unrhyw bolisïau sydd ar gael o |

| Argymhellion adroddiad 2015 | Cyflawnwyd/ni chyflawnwyd yr Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| | | bryd i'w gilydd ar wefan y Cyngor a allai fod yn berthnasol i (mae wedyn yn rhestru polisïau amrywiol gan gynnwys 'polisïau diogelu'). Nid oes polisi diogelu corfforaethol ar gael, ac nid yw'n glir yn union pa bolisïau diogelu y cyfeirir atynt, ac mae'r cyfeiriad at 'o bryd i'w gilydd' hefyd yn annelwig.<br>• Un o gyfrifoldebau'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yw 'Sicrhau bod polisi a phrosesau recriwtio diogel yn cael eu gweithredu ac y glynir wrthynt ar draws y Cyngor (gan gynnwys ysgolion), gyda monitro mewn cysylltiad â gweithwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr newydd a phresennol ar sail amserlen'. Mae angen i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol sicrhau ei hun fod prosesau recriwtio'r Cyngor ar gyfer contractwyr yn gadarn a bod holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor yn monitro darpariaethau sy'n gysylltiedig â diogelu yn gadarn fel rhan o'u trefniadau monitro contractau. Ar hyn o bryd, nid oes goruchwyliaeth gorfforaethol i weld a yw meysydd gwasanaeth yn gwirio cydymffurfiaeth â darpariaethau diogelu cytundebol fel rhan o'r gwaith o fonitro contractau. |

| Argymhellion adroddiad 2015 | Cyflawnwyd/ ni chyflawnwyd yr Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu drwy: | | |
| • sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino; | **Cyflawnwyd** a gwnaethpwyd argymhellion ychwanegol (gweler **A8** ar **dudalen 7** uchod) | • Ym mis Ebrill 2022 cyflwynodd y Cyngor hyfforddiant diogelu e-ddysgu gorfodol i'r holl staff.<br>• Dywedodd y Cyngor fod rhaid cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol o fewn tri mis. Fodd bynnag, nododd adroddiad perfformiad Chwarter 1 y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022-23 fod y gyfradd gwblhau yn 44.2%.<br>• Mae cyfradd staff ysgolion o ran cydymffurfio â hyfforddiant diogelu gorfodol ar hyn o bryd yn 100%.<br>• Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant diogelu e-ddysgu gorfodol i aelodau ar ôl etholiad Mai 2022. Gofynnodd y Cyngor i aelodau gwblhau'r hyfforddiant erbyn diwedd Awst 2022 ac erbyn y dyddiad hwnnw roedd 65% o'r aelodau wedi gwneud hynny.<br>• Mae'r Cyngor wedi dweud bod angen adnewyddu hyfforddiant diogelu bob tair blynedd.<br>• Mae gofyn i bob aelod newydd o staff gwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol erbyn diwedd ei wythnos gyntaf.  Os na wneir hynny, yna mae'r adran AD yn ei godi gyda Phenaethiaid Gwasanaeth mewn adroddiad.<br>• Mae hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn orfodol i staff ac aelodau. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, y gyfradd gwblhau ar gyfer staff yw 80.5%.<br>• O'r 29 o Gynghorwyr newydd a etholwyd ym mis Mai 2022, mae 83% ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant VAWDASV. |

| Argymhellion adroddiad 2015 | Cyflawnwyd/ ni chyflawnwyd yr Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| | | • O ran aelodau a etholwyd cyn Mai 2022, dywedodd y Cyngor bod gan fodiwl e-ddysgu VAWDASV gyfnod adnewyddu tair blynedd. O'r 39 aelod sy'n dychwelyd, mae angen i 17 adnewyddu eu hyfforddiant.<br>• Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys fideo diogelu a gynhyrchwyd ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion. Mae gyrwyr tacsi newydd yn gorfod gwylio'r fideo ac yna cael prawf arno fel rhan o'r prawf gyrrwr y mae angen ei basio er mwyn cyflwyno cais gyrrwr. |
| • creu system ledled y gorfforaeth i nodi, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a | **Cyflawnwyd yn rhannol** | • Mae system ledled y gorfforaeth ar gyfer staff nad ydynt yn rhai ysgolion ac aelodau (iTrent). Mae gwybodaeth hyfforddi hefyd o ran gwirfoddolwyr, ond fel y soniwyd uchod, dylai fod canllawiau canolog ar recriwtio gwirfoddolwyr. Byddai hynny'n helpu i sicrhau bod pob gwirfoddolwr yn cael ei hyfforddi pan fo angen hynny.<br>• Cedwir gwybodaeth o ran cydymffurfiant staff a llywodraethwyr ysgolion â hyfforddiant diogelu ar gronfa ddata yn y gwasanaeth ysgolion. Mae'r hyfforddiant yn orfodol ar gyfer diogelu llywodraethwyr arweiniol yn unig. |
| • mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | | • Gweler y gwendidau a nodwyd o'u cymharu ag A3 o'n hadroddiad yn 2015 ar **dudalennau 11 a 12** uchod. |

| Argymhellion adroddiad 2015 | | Cyflawnwyd/ ni chyflawnwyd yr Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|---|
| A6[3] | Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu o'u cymharu â set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol ;<br>• data perfformiad yn seiliedig ar wasanaethau ;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDG; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor. | **Ni chyflawnwyd** a gwnaethpwyd argymhellion ychwanegol (gweler **A3 ac A10** ar **dudalennau 6 a 7** uchod) | • Un o gyfrifoldebau'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn ei Gylch Gorchwyl yw 'llunio adroddiad diogelu blynyddol (gan gysylltu â'r gofyniad am adroddiad blynyddol drwy'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol)'. Mae'r Cylch Gorchwyl hefyd yn nodi y bydd 'y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu yn cael gwybodaeth ynghylch gwaith y Grŵp drwy adroddiad diogelu blynyddol a diweddariad bob chwe mis'. Fodd bynnag, hyd yma, ni luniodd y Grŵp adroddiadau blynyddol o'r fath.<br>• Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn darparu diweddariadau bob chwe mis i'r Cabinet. Maent yn fyr iawn a dim ond o bryd i'w gilydd y maent yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad. Y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal yw'r pwyllgor craffu perthnasol ar gyfer materion diogelu corfforaethol. Nid yw wedi cael diweddariad chwe mis gan y Grŵp Diogelu Corfforaethol ers Ionawr 2020.<br>• Mae'r Cyngor wedi dweud bod ganddo rywfaint o wybodaeth am berfformiad diogelu corfforaethol, ond mae wedi'i gynnwys mewn adroddiadau gwahanol a heb ei dwyn ynghyd mewn un lle. |
| A7 | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau ac adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor. | **Ni chyflawnwyd** (yn ymwneud ag argymhelliad ychwanegol a wnaed – gweler **A1** ar **dudalen 6** uchod) | • Cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad ar recriwtio mwy diogel yn 2019-20. Ar wahân i'r archwiliad hwnnw, ni fu archwiliadau eraill yn ymwneud â diogelu corfforaethol. Felly, ni ellir ei disgrifio fel rhaglen dreigl o archwiliadau. |

[3] Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am ymateb i argymhelliad 5 felly nid yw hwnnw wedi'i gynnwys uchod.

| Argymhellion adroddiad 2015 | | Cyflawnwyd/ni chyflawnwyd yr Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|---|
| A8 | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor. | **Cyflawnwyd yn rhannol** a gwnaethpwyd argymhelliad ychwanegol (gweler **A11** ar **dudalen 7** uchod) | • Mae Cofrestr Risg Strategol y Cyngor yn cynnwys risg mewn cysylltiad â chapasiti annigonol sydd â chanlyniadau posibl o ran diogelu.<br>• Mae'r gofrestr risg Gwasanaethau Plant a'r gofrestr risg Gwasanaethau Oedolion yn cynnwys risgiau sydd â chanlyniadau posibl o ran diogelwch plant neu oedolion, fel System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a chapasiti.<br>• Nid yw diogelu yn ymddangos ar y Gofrestr Risg Addysg, ond dywedodd y Cyngor fod cyfarfodydd rheolaidd gyda'r arweinydd dynodedig ar gyfer diogelu.<br>• Nid yw diogelu yn ymddangos ar Gofrestrau Risg Cyfarwyddiaethau eraill. Efallai bod hynny'n briodol, ond mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun fod pob Cyfarwyddiaeth yn rhoi ystyriaeth lawn i ddiogelu risgiau a, phan fo hynny'n briodol, yn sicrhau bod Cofrestrau Risg Cyfarwyddiaethau'n adlewyrchu'r ystyriaeth honno. |

# Asesiad o gynnydd o'i gymharu â'r cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad lleol yn 2014

**Arddangosyn 3: cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad lleol yn 2014 a'n hasesiad o gynnydd o'i gymharu â nhw**

| Cynigion ar gyfer gwella (PFI) yn ein hadroddiad lleol yn 2014 a gyhoeddwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2014 | | Bodlonwyd/ni fodlonwyd PFI | Asesiad Archwilio Cymru o Gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|---|
| C1 | Sicrhau bod camau priodol ac amserol yn cael eu cymryd i reoli risgiau a thangyflawni mewn cysylltiad â diogelu a sicrhau bod aelodau etholedig yn cael gwybod am drefniadau rheoli risg a bod cynnydd wrth fynd i'r afael â risgiau diogelu yn cael ei gynnwys mewn gwaith craffu yn y dyfodol. | **Bodlonwyd yn rhannol** | Mae'r naratif uchod o'i gymharu ag A8 o'n hadroddiad yn 2015 yn berthnasol i'r cynnig hwn ar gyfer gwella o'n hadroddiad lleol yn 2014. Ar ben hynny, mae diffyg adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol neu ddiweddariadau bob chwe mis yn dod yn destun craffu yn golygu nad yw'r gwaith craffu wedi bod yn cael gwybodaeth mewn cysylltiad â risgiau diogelu corfforaethol. |
| C2 | Gwella gwaith Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor. | **Ni fodlonwyd** | Mae'r naratif uchod o'i gymharu ag A6 o'n hadroddiad yn 2015 yn berthnasol i'r cynnig hwn ar gyfer gwella o'n hadroddiad lleol yn 2014. Mae diffyg adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol neu ddiweddariadau bob chwe mis yn dod yn destun craffu yn golygu nad yw'r gwaith craffu wedi bod yn cael gwybodaeth am drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor, felly nid ydynt wedi bod mewn sefyllfa i graffu ar y trefniadau hynny. |
| C3 | Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig a staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn plant ac ar bolisi corfforaethol y Cyngor ar ddiogelu. | **Bodlonwyd yn rhannol** | Gweler y naratif o'i gymharu ag A4 o'n hadroddiad yn 2015 uchod. Hyd yn hyn, ni fu polisi diogelu corfforaethol i aelodau a staff gael hyfforddiant arno. |
| C4 | Nodi a chytuno ar raglen waith archwilio mewnol priodol ar gyfer diogelu. | **Ni fodlonwyd** | Gweler y naratif o'i gymharu ag A7 o'n hadroddiad yn 2015 uchod. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.